Office for Product Safety & Standards



# Magnetau bach, pwerus Gofalwch!

**Yn fwyfwy rydyn ni'n gweld magnetau bach, pwerus yn ein bywydau bob dydd, ar oergelloedd, mewn teganau desg i oedolion, neu'n cael eu defnyddio fel ategolion mewn ffasiwn a phartïon. Ond oeddech chi'n gwybod, os cân nhw eu llyncu, fe allan nhw anafu'n wael, neu hyd yn oed ladd? Bydd y cyngor yma'n eich helpu i gadw'ch plentyn yn ddiogel.**

2021

## Peryglon magnetau rhydd

Os bydd plentyn yn llyncu magnetau, maen nhw'n gallu cael eu gorfodi at ei gilydd yn y coluddion neu'r perfeddion, gan wasgu'r feinwe fel bod y cyflenwad gwaed yn cael ei atal. Gall llyncu magnetau achosi difrod mewnol arwyddocaol o fewn oriau a bod yn fygythiol i fywyd.

Gall cynhyrchion magnetig bach fod yn berygl tagu hefyd. Cadwch bob magnet allan o gyrraedd plentyn.

## Sut i gadw plant yn ddiogel

### Gwiriwch eich cartref



Os oes gennych chi deganau neu deganau desg i oedolion sydd â magnetau bach, set adeiladu sfferau magnetig, neu os ydych chi'n cadw magnetau ar yr oergell, yna symudwch nhw allan o gyrraedd plant bach. Os yw tegan yn ddiffygiol a bod magnetau wedi dod yn rhydd, trwsiwch y peth neu ei waredu'n ddiogel.  Peidiwch â gosod magnetau ar eitemau gwydr gan eu bod yn gallu dod yn rhydd a chael eu llyncu'n hawdd. Rhowch wybod i'ch tîm Safonau Masnach lleol am unrhyw gynnyrch sy'n anniogel yn eich barn chi.

### Siaradwch â phlant am y peryglon

Mae defnyddio cynhyrchion magnetig fel tlysau tyllu ffug, ar y dafod, y geg neu'r trwyn, yn cynyddu'r risg o'u hanadlu i mewn neu eu llyncu. Trafodwch gyda phlant ac arddegwyr pam mae magnetau bach pwerus yn beryglus, a pham na ddylen nhw mo'u defnyddio fel tlysau tyllu ffug ar eu corff, nac fel eitemau i addurno gwydrau.

## Os ydych chi'n amau bod eich plentyn wedi llyncu magnet

Os ydych chi'n meddwl bod eich plentyn wedi llyncu magnet, ewch â nhw'n syth i'r Adran Frys agosaf neu ffoniwch 999 am ambiwlans.

**Efallai na fydd y symptomau'n amlwg. Efallai y bydd eich plentyn:**

- yn dioddef poen yn y stumog
- yn chwydu
- â thwymyn
- yn pwyntio at y llwnc neu'r stumog

**Mae symptomau aneglur neu amrywiol yn golygu ei bod yn bwysig bod yn wyliadwrus.**